Docusign Envelope ID: 85803C8B-C390-481A-8212-6784619F2314

# GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN
# (YR C2162 CWMIFOR, LLANDEILO)
# (GWAHARDDIAD DROS DRO AR DRAFFIG TRWODD) 2025

**GAN FOD** Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen), sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y darn hwnnw o'r C2162 ger Cwmifor, Llandeilo o fan sydd 162m i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â'r A40 Llandeilo am bellter o 619 metr i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain, wedi'i fodloni y dylid cyfyngu ar y traffig ar y darn ffordd dan sylw yn sgil y gwaith y bwriedir ei wneud arno.

**YN AWR** gan hynny, mae'r Cyngor, gan arfer ei bwerau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) a'r holl bwerau galluogi eraill, trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaniateir i neb beri i unrhyw gerbyd deithio ar hyd y darn hwnnw o'r ffordd a adwaenir fel yr C2162 Cwmifor, Llandeilo o fan sydd 162m i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â'r A40 Llandeilo am bellter o 619 metr i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain.
2. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar yr unfed ar ddeg o Orffennaf Dwy Fil a Dau Ddeg Pump a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (yr C2162 - Cwmifor, Llandeilo) (Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig Trwodd) 2025.

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN**

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

**ar y ddogfen hon 27 Mehefin**

**2025 ym mhresenoldeb:**

Signed by:
Steven P Murphy
6947BF055CF64B2...

19186

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**